Cyngor Sir Ceredigion

# CANLLAWIAU AR GYFER TREFNWYR DIGWYDDIADAU

**Cau’r Ffyrdd ar gyfer Digwyddiadau Arbennig**

**Adran 16A, Deddf Rheoliadau Traffig Ffyrdd 1984**

**Adran 21, Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847**

**Rheoliadau COVID-19**

Adain Cau’r Ffyrdd
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
Cyngor Sir Ceredigion
Canolfan Rheidol
Aberystwyth
Ceredigion, SY23 0PA

Rhif Ffôn: 01545 572572
E-bost: clic@ceredigion.gov.uk

**CANLLAWIAU**

Ym mhob achos lle bwriedir cynnal digwyddiad ar briffordd gyhoeddus, blaenoriaeth gyntaf trefnydd y digwyddiad fydd cael y caniatâd angenrheidiol gan yr awdurdodau. Dylai trefnwyr y digwyddiad sicrhau eu bod yn caniatáu digon o amser iddynt eu hunain i gynllunio'n drylwyr ar gyfer y digwyddiad gan wneud cais am orchymyn cau'r ffordd dros dro. Gall cau'r ffordd achosi trafferth i drigolion lleol a dylai trefnydd y digwyddiad ystyried yn ddwys a oes modd cynnal y digwyddiad yn rhywle arall yn hytrach nag ar y briffordd. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i lwybr gwyro addas a dylid cyflwyno cynigion gyda'r cais fel y gall y Cyngor eu cymeradwyo. Os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â pha mor briodol yw cau'r ffordd neu pa mor angenrheidiol yw gwneud hynny, dylai trefnwyr digwyddiadau ofyn am gyngor oddi wrth Adain Cau'r Ffyrdd.

Rhestrir isod rai enghreifftiau o'r math o ddigwyddiadau y gellir eu cynnal gyda gorchymyn cau'r ffyrdd o dan 'Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847'.

- Gorymdeithiau a Pharedau
- Digwyddiadau i droi goleuadau ymlaen
- Carnifalau yn ystod yr haf

Mae modd cynnal digwyddiadau mawr eraill ar y briffordd megis rasys beiciau neu ffeiriau. O ystyried y byddai digwyddiadau fel hyn yn amharu'n fawr ar fywydau pobl, byddai angen i drefnwyr y digwyddiadau hyn wneud cais i gau'r ffordd/ffyrdd o dan Adran 16A, Deddf Rheoliadau Traffig Ffyrdd 1984.

Beth bynnag bo'r digwyddiad, efallai na fydd hi'n bosibl i'r Awdurdod Priffyrdd ganiatáu Gorchymyn Cau'r Ffordd am y rhesymau canlynol:

- Nid ydych wedi rhoi digon o amser i'r Awdurdod brosesu'r cais (**mae angen o leiaf 3 mis o rybudd**)
- Mae'r Awdurdod yn credu bod lleoliad mwy addas ar gael i gynnal y digwyddiad.
- Byddai cau'r ffordd yn golygu rhwystro traffig ar ffordd brysur.
- Mae nifer fawr o bobl yn debygol o fod yn bresennol yn y digwyddiad a gallai hyn achosi risg o ran iechyd a diogelwch.
- Bydd y ffordd ar gau am gyfnod hir.
- Nid oes llwybr gwyro boddhaol ar gael.
- Nid oes modd i'r Gwasanaethau Brys gael mynediad digonol.
- Mae'r Awdurdod wedi derbyn gwrthwynebiadau dilys oddi wrth bartïon eraill ynglŷn â'r digwyddiad ac ni ellir eu datrys (gweler y nodiadau ymgynghorol ar dudalennau 5 a 6)
- Nid oes gan y trefnydd Indemniad / Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus digonol (caiff hyn ei asesu gan y Cyngor ond fel arfer rhaid iddo fod o leiaf £5 miliwn)
- Nid yw'r trefnydd wedi cytuno i yswirio pob parti arall rhag unrhyw atebolrwydd posibl a allai godi mewn cysylltiad â'r digwyddiad dan sylw.

- Mae rhesymau eraill wedi'u nodi sy'n cael eu hystyried yn rhai sy'n berthnasol i'r cais

**Gall y Cyngor roi caniatâd i gau'r ffyrdd ar gyfer Digwyddiadau Arbennig gan gynnwys Rasys Beiciau o dan Adran 16A, Deddf Rheoliadau Traffig Ffyrdd 1984.**

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r trefnydd ddarparu'r wybodaeth ganlynol ar gyfer unrhyw ddigwyddiad arbennig lle bo'r ffordd yn cael ei chau ar gyfer rasys beiciau:

- Manylion am y lleoliad/lleoliadau ac union safle'r llinell gychwyn a'r llinell derfyn.
- Cynllun sy'n dangos y ffordd / y ffyrdd a fydd yn cael eu cau a'r rhai a fydd yn cael eu heffeithio gan y cwrs rasio a'r llwybr / y llwybrau eraill.
- Manylion y trefniadau ar gyfer Rheoli Traffig (gweler yr adran **Marsialiaid** o dan Ystyriaethau Eraill ar dudalen 7). Bydd angen i'r Cynlluniau Rheoli Traffig gynnwys lleoliad pob arwydd a rhwystr, gan gynnwys lluniau o'r arwyddion hyn. Byddem yn argymell eich bod yn gofyn am gyngor Cwmni Rheoli Traffig neu hyd yn oed ddefnyddio eu gwasanaethau, ond rydym yn deall y bydd costau'n penderfynu a yw hynny'n ymarferol ai peidio. Atgoffir y trefnwyr na allant ddibynnu ar yr Heddlu yn unig i ymgymryd â'r gwaith hwn.
- Nifer uchaf y cystadleuwyr a ganiateir ym mhob ras
- Ai ras yw'r digwyddiad neu ai treial amser ydyw?
- Manylion y rheolau os mai treial amser ydyw
- Tystiolaeth o Yswiriant/Indemniad (caiff hyn ei asesu gan y Cyngor ond fel arfer rhaid iddo fod o leiaf £5 miliwn)
- Asesiad Risg a Datganiad Dull (gweler yr adran Gwybodaeth Ddefnyddiol ar dudalennau 8 a 9)
- Manylion am y rhwystrau a'r mesurau diogelwch eraill (caiff hyn ei gynnwys yn y Cynllun Rheoli Traffig).
- Dylai'r rhestr lofnodi gynnwys y canlynol: diagramau / y niferoedd / y lleoliadau / yr uchder gosod a dylai gydymffurfio â Rheoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddyd Cyffredinol 2002. Bydd angen i'r rhestr hon ddangos arwyddion dwyieithog y llwybr gwyro sy'n gysylltiedig ag unrhyw ffordd y gwneir cais ar gyfer ei chau a bydd angen iddi gael ei chymeradwyo yn ffurfiol gan yr Awdurdod (caiff hyn ei gynnwys yn y Cynllun Rheoli Traffig). Y trefnydd/ymgeisydd sy'n gyfrifol am gost yr arwyddion ac am osod yr arwyddion a'u tynnu i lawr. **Mae'n rhaid i'r arwyddion fod yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg uwchben y Saesneg.**
- Copi o'r llythyr ymgynghori a'r rhestr gyfeiriadau (gweler y nodiadau ymgynghori ar dudalen 5)
- Prawf eich bod wedi ymgynghori â thrigolion/talwynebwyr/busnesau ac eraill y mae hyn yn effeithio arnynt e.e. cwmnïau bysiau a thacsis cyn cyflwyno'r cais
- Cadarnhad gan Undeb Beicio Cymru bod y rasys yn digwydd – os yw hynny'n briodol

- Manylion y trefniadau a wnaethpwyd ar gyfer darparu mannau parcio i gerbydau cludo a beiciau
- Manylion y trefniadau a wnaethpwyd ar gyfer clirio pob darn o sbwriel o’r briffordd ar ôl y digwyddiad

**Gall y Cyngor roi caniatâd i gau’r ffyrdd ar gyfer Digwyddiadau Arbennig (eraill) o dan Adran 16, Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ei gwneud hi’n ofynnol i’r trefnydd ddarparu’r wybodaeth ganlynol:

- Manylion o’r lleoliad / lleoliadau
- Cynllun o’r ffordd / y ffyrdd yr effeithir arnynt a’r llwybr arall
- Uchafswm y nifer a fydd yn bresennol (gan gynnwys y rhai sy’n cymryd rhan a’r rhai sy’n gwylio)
- Tystiolaeth o Yswiriant/Indemniad (caiff hyn ei asesu gan y Cyngor ond fel arfer rhaid iddo fod o leiaf £5 miliwn)
- Asesiad Risg a Datganiad Dull (gweler yr adran Gwybodaeth Ddefnyddiol ar dudalen 8)
- Manylion y trefniadau ar gyfer Rheoli Traffig (gweler yr adran **Marsialiaid** o dan Ystyriaethau Eraill ar dudalen 7). Bydd angen i’r Cynlluniau Rheoli Traffig gynnwys lleoliad pob arwydd a rhwystr, gan gynnwys lluniau o’r arwyddion hyn. Byddem yn argymell eich bod yn gofyn am gyngor Cwmni Rheoli Traffig neu hyd yn oed ddefnyddio eu gwasanaethau, ond rydym yn deall y bydd costau’n penderfynu a yw hynny’n ymarferol ai peidio. Atgoffir y trefnwyr na allant ddibynnu ar yr Heddlu yn unig i ymgymryd â’r gwaith hwn.
- Manylion am y rhwystrau (caiff hyn ei gynnwys yn y Cynllun Rheoli Traffig)
- Dylai’r rhestr lofnodi gynnwys y canlynol: diagramau / y niferoedd / y lleoliadau / yr uchder gosod a dylai gydymffurfio â Rheoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddyd Cyffredinol 2002. Bydd angen i’r rhestr hon ddangos arwyddion dwyieithog y llwybr gwyro sy’n gysylltiedig ag unrhyw ffordd y gwneir cais ar gyfer ei chau a bydd angen iddi gael ei chymeradwyo yn ffurfiol gan yr Awdurdod (caiff hyn ei gynnwys yn y Cynllun Rheoli Traffig). Y trefnydd/ymgeisydd sy’n gyfrifol am gost yr arwyddion ac am osod yr arwyddion a’u tynnu i lawr. **Mae’n rhaid i’r arwyddion fod yn ddwyieithog gyda’r Gymraeg uwchben y Saesneg.**
- Copi o’r llythyr ymgynghori a’r rhestr gyfeiriadau (gweler y nodiadau Ymgynghori ar dudalen 5)
- Prawf eich bod wedi ymgynghori â’r trigolion/talwynebwyr/busnesau ac eraill y mae hyn yn effeithio arnynt e.e. cwmnïau bysiau a thacsis, cyn cyflwyno’r cais
- Manylion y trefniadau a wnaethpwyd ar gyfer darparu mannau parcio i gerbydau cludo
- Manylion y trefniadau a wnaethpwyd ar gyfer clirio pob darn o sbwriel o’r briffordd ar ôl y digwyddiad

**Gall y Cyngor roi caniatâd i gau'r ffyrdd ar gyfer Digwyddiadau Arbennig o dan Adran 21, Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847**

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r trefnydd ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

- Manylion o'r lleoliad/llwybr
- Cynllun o'r ffordd / y ffyrdd yr effeithir arnynt a'r llwybr arall
- Uchafswm y nifer a fydd yn bresennol (gan gynnwys y rhai sy'n cymryd rhan a'r rhai sy'n gwylio)
- Tystiolaeth o Yswiriant/Indemniad (caiff hyn ei asesu gan y Cyngor ond fel arfer rhaid iddo fod o leiaf £5 miliwn)
- Asesiad Risg a Datganiad Dull (gweler yr adran Gwybodaeth Ddefnyddiol ar dudalen 8)
- Manylion o'r trefniadau ar gyfer Rheoli Traffig (gweler yr adran **Marsialiaid** o dan Ystyriaethau Eraill ar dudalen 7)
- Bydd angen i'r Cynlluniau Rheoli Traffig gynnwys lleoliad pob arwydd a rhwystr, gan gynnwys lluniau o'r arwyddion hyn. Byddem yn argymell eich bod yn gofyn am gyngor Cwmni Rheoli Traffig neu hyd yn oed ddefnyddio eu gwasanaethau, ond rydym yn deall y bydd costau'n penderfynu a yw hynny'n ymarferol ai peidio. Atgoffir y trefnwyr na allant ddibynnu ar yr Heddlu yn unig i ymgymryd â'r gwaith hwn.
- Manylion am y rhwystrau (caiff hyn ei gynnwys yn y Cynllun Rheoli Traffig).
- Dylai'r rhestr lofnodi gynnwys y canlynol: diagramau / y niferoedd / y lleoliadau / yr uchder gosod a dylai gydymffurfio â Rheoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddyd Cyffredinol 2002. Bydd angen i'r rhestr hon ddangos arwyddion dwyieithog y llwybr gwyro sy'n gysylltiedig ag unrhyw ffordd y gwneir cais ar gyfer ei chau a bydd angen iddi gael ei chymeradwyo yn ffurfiol gan yr Awdurdod (caiff hyn ei gynnwys yn y Cynllun Rheoli Traffig). Y trefnydd/ymgeisydd sy'n gyfrifol am gost yr arwyddion ac am osod yr arwyddion a'u tynnu i lawr. **Mae'n rhaid i'r arwyddion fod yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg uwchben y Saesneg.**
- Prawf eich bod wedi ymgynghori â'r Gwasanaethau Brys a'r cwmnïau bysiau lleol (gweler yr adran Gwybodaeth Ddefnyddiol ar dudalennau 8 a 9)
- Manylion y trefniadau a wnaethpwyd ar gyfer darparu mannau parcio i gerbydau cludo
- Manylion y trefniadau a wnaethpwyd ar gyfer clirio pob darn o sbwriel o'r briffordd ar ôl y digwyddiad

**YMGYNGHORI**

**Talwynebwyr / Preswylwyr:** Ar gyfer rhai mathau o ddigwyddiadau, ac yn ôl cyfarwyddyd yr Awdurdod Priffyrdd, bydd hi'n ofynnol i'r trefnwyr roi tystiolaeth eu bod wedi ymgynghori â thalwynebwyr/preswylwyr a sefydliadau eraill yr effeithir arnynt megis cwmnïau bysiau a thacsis, cyn cyflwyno eu cais. Bydd

angen i Gyngor Sir Ceredigion gael copi o'r llythyr ynghyd â rhestr o'r sawl fydd yn derbyn y llythyr. Mae'n rhaid i'r llythyr hwn gynnwys:

a) Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn gwrthwynebiadau (o leiaf 5 wythnos cyn yr adeg yr ydych chi'n bwriadu cau'r ffordd).

b) Y cyfeiriad lle y mae modd iddynt gyflwyno eu gwrthwynebiadau:

Drwy'r post: Drwy e-bost: clic@ceredigion.gov.uk

Uned Cau'r Ffyrdd
Priffyrdd a
Gwasanaethau
Amgylcheddol
Cyngor Sir Ceredigion
Canolfan Rheidol
Aberystwyth
Ceredigion, SY23 3UE

c) Datganiad sy'n nodi bod yn rhaid i bob gwrthwynebiad gynnwys enw a chyfeiriad y sawl sy'n gwrthwynebu neu ni ellir ei ystyried

d) Gwybodaeth sy'n nodi bod gan y Gwrthwynebwyr yr hawl i wneud cais o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 na fydd eu henw na'u cyfeiriad yn cael eu datgelu mewn ymchwiliad cyhoeddus nac ychwaith yn cael eu cynnwys mewn unrhyw adroddiad a gyhoeddir.

e) Copi o'r Hysbysiad Stryd arfaethedig sy'n hysbysebu'r bwriad i gau'r ffordd

D.S. Mae'n rhaid i unrhyw wrthwynebiad y mae'r trefnydd yn ei dderbyn gael ei anfon ymlaen at Gyngor Sir Ceredigion.

**Rhanddeiliaid.** Mae'n bosibl hefyd y bydd Cyngor Sir Ceredigion yn ymgynghori gyda'r Rhanddeiliaid allweddol canlynol:

a) Heddlu Dyfed Powys
b) Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru
c) Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
ch) Uned Cludiant Cyngor Sir Ceredigion
d) Swyddog Trwyddedu Cyngor Sir Ceredigion
dd) Rheolwr Gwaith Stryd Cyngor Sir Ceredigion
e) Yr Aelod Lleol
f) Y Cyngor Cymuned / Tref
ff) Y Siambr Fasnach
g) Pen Beiriannydd (Cynnal a Chadw)

**Gwrthwynebiadau.** Os daw gwrthwynebiad dilys i law, caiff ei drosglwyddo yn y lle cyntaf i Drefnydd y Digwyddiad er mwyn ceisio ei ddatrys. Mae'n rhaid i Gyngor Sir Ceredigion gael gwybod am bob cam a gymerir. Os bydd aelod

o'r cyhoedd wedi cyflwyno gwrthwynebiad dilys ac nad yw'r mater dan sylw wedi'i ddatrys, bydd y cais yn cael ei gyfeirio at Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a'r unigolyn hwnnw fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid cau'r ffordd neu beidio.

Bydd unrhyw wrthwynebiadau dilys gan Randdeiliaid nad oes modd i'r Trefnydd gymryd camau i'w datrys bron yn sicr yn golygu y bydd y cais yn cael ei wrthod.

**YSTYRIAETHAU ERAILL**

**Mynediad i Gerbydau Argyfwng.**

Wrth gynllunio digwyddiad, mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i ddarparu mynediad i gerbydau argyfwng ar bob adeg. Fe'ch cynghorir i gysylltu â'r Heddlu, y Gwasanaeth Tân a'r Gwasanaeth Ambiwlans yn lleol cyn cyflwyno eich cais.

**Arwyddion**

Trefnydd y digwyddiad sy'n gyfrifol am sicrhau bod digon o arwyddion ar gael ar gyfer cau'r ffordd a bod llwybr gwyro yn bodoli cyn y digwyddiad ac yn ystod y digwyddiad. Mae'n rhaid i bob arwydd ar y briffordd gydymffurfio â Phennod 8 y Llawlyfr Arwyddion Traffig www.dft.gov.uk/pgr/roads/tss/tsmanual www.dft.gov.uk/pgr/roads/tss/tsmanual a dylent gael eu cymeradwyo gan Adain Cau'r Ffyrdd ymlaen llaw.

**Mae'n rhaid i'r arwyddion fod yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg uwchben y Saesneg.** Bydd arnom angen manylion ynglŷn â lle y byddwch chi'n gosod yr arwyddion, gwybodaeth am sut y byddwch chi'n eu gosod ac enw/enwau'r sawl fydd yn gwneud y gwaith hwn. Bydd unrhyw arwydd nad ydyw yn cael ei gymeradwyo gan Adain Cau'r Ffyrdd yn cael ei symud a gallai hyn olygu y bydd unrhyw geisiadau pellach yn cael eu gwrthod. Dylid nodi mai Trefnydd y Digwyddiad sy'n gyfrifol am ddarparu arwyddion (gweler manylion y Cwmnïau Rheoli Traffig ar dudalen 9). **Rydym yn gofyn i'r trefnwyr ddarparu lluniau/ffotograffau o'r arwyddion fel tystiolaeth.**

**Marsialiaid**

Cyfrifoldeb Trefnydd y Digwyddiad yw rheoli traffig. 'Dim ond yr heddlu neu rywun o dan gyfarwyddyd yr Heddlu all yn gyfreithiol reoli traffig ar briffordd gyhoeddus. Mae ymgynghori â nhw felly yn hanfodol er mwyn sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu darparu. Dylai fod gan stiwardiaid/marsialiaid sy'n cyfarwyddo traffig ar y safle gyfarpar diogelu personol addas megis dillad llachar a dillad sy'n addas ar gyfer tywydd anffafriol.' (gweler erthygl 327 Canllawiau'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch ynghylch Diogelwch Digwyddiadau', (www.hse.gov.uk). Dylai'r Trefnydd sicrhau bod digon o farsialiaid, sydd wedi derbyn hyfforddiant, ar gael i wneud y gwaith. Dylid trafod cynllun rheoli traffig gydag Adain Cau'r Ffyrdd yn fuan ar ddechrau'r

broses drefnu (gweler yr adran Gwasanaethau Trefnwyr ar dudalen 9). Bydd y trefnydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl farsialiaid a stiwardiaid yn gymwys i gyfeirio traffig a cherddwyr a bod niferoedd digonol yn cael eu defnyddio i reoli'r digwyddiad. Rhaid darparu prawf o gymhwysedd pob stiward/marsial fel rhan o'r cais, naill ai ar ffurf tystysgrif / achrediad / neu CV ar gyfer pob stiward/marsial. Dylai pob CV gynnwys rhestr o'r digwyddiadau y maent wedi bod yn stiward/marsial ynddynt. Bydd y Cyngor yn penderfynu a oes ganddynt ddigon o brofiad i'w gwneud yn gymwys i gyfeirio a rheoli'r cerddwyr a'r traffig.

**Bysiau**

Gallwch gael gwybodaeth ynglŷn â llwybrau bysiau a chwmnïau lleol drwy gysylltu ag Uned Gludiant Cyngor Sir Ceredigion (gweler y cysylltiadau i wybodaeth ddefnyddiol ar dudalen 8).

**Parcio Ceir**

Dylid ystyried darparu mannau parcio ar gyfer y bobl sy'n dod i'r digwyddiad er mwyn osgoi unrhyw rwystrau pellach ar y ffordd.

**FFIOEDD**

Ar ôl derbyn y Ffurflen Gais a gwybodaeth ddigonol sy'n rhoi manylion am y digwyddiad, bydd Adain Cau'r Ffyrdd yn medru rhoi cyngor i Drefnydd y Digwyddiad am y gost sy'n gysylltiedig â phrosesu'r Gorchymyn a manylion am leiafswm yr Atebolrwydd Cyhoeddus/Indemniad sy'n ofynnol (mae mwy o fanylion ar gael yn **Atodiad A**). Caiff y ffioedd hyn eu hadolygu bob blwyddyn.

**CEISIADAU**

Ni fyddwn ond yn derbyn ceisiadau ar ffurflen 'Cais am Gau Ffordd Dros Dro – Digwyddiadau Arbennig neu Gymunedol ' Cyngor Sir Ceredigion ac mae'n rhaid anfon y cais ynghyd â'r wybodaeth angenrheidiol at:

**Uned Cau'r Ffyrdd, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Ceredigion, Canolfan Rheidol, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE**

**Rhif Ffôn: 01545 572572**

E-bost: clic@ceredigion.gov.uk

Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn cysylltu â chi i gadarnhau ein bod wedi derbyn y ffurflen gais. Byddwn wedyn yn dechrau ar y broses o ymgynghori â'r Rhanddeiliaid a byddwn yn hysbysu'r trefnydd o unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law.

## CYMERADWYO'R CAIS I GAU'R FFORDD

Unwaith y bydd y cais i gau'r ffordd yn cael ei gymeradwyo, bydd yr Awdurdod yn rhoi Hysbysiadau Cyhoeddus i'r trefnydd a rhaid eu gosod ar y safle o leiaf 5 niwrnod gwaith cyn y digwyddiad. **Ni ddylid** defnyddio tâp na glud i osod yr hysbysiadau ar unrhyw ddodrefn stryd (gan gynnwys arwyddion a goleuadau stryd). Yn lle hynny, dylech glymu'r hysbysiadau â chortyn neu linyn plastig.

Os na fydd y cais i gau'r ffordd yn cael ei gymeradwyo, bydd Cyngor Ceredigion yn rhoi gwybod i'r Trefnydd ar unwaith, gan nodi'r rhesymau dros wrthod y cais.

## AR ÔL Y DIGWYDDIAD

Mae'n rhaid i'r Trefnydd sicrhau bod pob arwydd a rhwystr yn cael eu symud o'r safle yn syth ar ôl y digwyddiad. Rhaid i'r trefnydd hefyd sicrhau nad oes rhwystrau yn cael eu gadael ar y briffordd.

Os bydd unrhyw ddifrod yn cael ei wneud i'r briffordd, dylech roi gwybod i'r **Ganolfan Gyswllt** ar unwaith **drwy ffonio 01545 572572**. Cyfrifoldeb y Trefnydd yw sicrhau bod yr holl sbwriel yn cael ei glirio a bod unrhyw fwd neu laid yn cael eu clirio o'r briffordd. Os nad yw'r stryd yn cael ei lanhau ac os nad yw'r sbwriel wedi cael ei symud o'r safle mewn modd boddhaol, bydd y Cyngor yn gwneud hyn ar eich rhan a bydd yn codi tâl ar y sawl sy'n trefnu'r digwyddiad.

## DOLENNI I WYBODAETH DDEFNYDDIOL

www.hse.gov.uk - www.method-statement-template.com
Gwybodaeth a chymorth am faterion sy'n ymwneud ag Iechyd a Diogelwch ac Asesiadau Risg/Datganiadau Dull

www.police.homeoffice.gov.uk/publications/operational-policing-safety-guide.pdf <http://www.police.homeoffice.gov.uk/publications/operational-policing-safety-guide.pdf> - Canllawiau'r Swyddfa Gartref ar gyfer digwyddiadau bychain a digwyddiadau chwaraeon a gynhelir ar y priffyrdd, ar y ffyrdd ac mewn mannau cyhoeddus.

www.ceredigion.gov.uk - 'Y Diweddaraf am Draffig a Gwaith ar y Ffyrdd' - gwybodaeth am waith ar y ffyrdd a'r ffyrdd sydd ar gau yng Ngheredigion.

www.ceredigion.gov.uk - 'Bysiau a Chludiant Cyhoeddus'
Gallwch hefyd ffonio 01970 633555 os ydych chi am gael gwybodaeth am Wasanaethau a Chwmnïau Bysiau

www.dft.gov.uk/pgr/roads/tss/tsmanual - Pennod 8 y Llawlyfr Arwyddion Traffig

**Cwmnïau Cymwys ar gyfer Rheoli Traffig**

A Plant Lux – Traffic Control
Depo Traffig Llanybydder
Uned 2 Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Mawr
Llanybydder
SA40 9RB
Ffôn: 01570 480698

E-bost: llanybyddertraffic@aplant.com

Amberon
Dane Lacy, Rheolwr Rhanbarthol 07875 815530
Laurence Britt, Rheolwr y Depo 07791 023947
Rhif Cyswllt Cyffredinol:
0845 371 5050

E-bost: sales@amberontm.com

*Mae cwmnïau eraill ar gael

**Gwasanaethau Trefnu**

www.marshallingservices.co.uk

www.flsecurity.co.uk

* Mae cwmnïau eraill ar gael

**Atodiad A**

**Canllawiau ynghylch Cynllunio Digwyddiadau (ar gyfer digwyddiadau ar Briffyrdd Cyhoeddus)**

| Math o Ddigwyddiadau* | Mawr | Sylweddol | Bach | Bach Cymunedol |
|---|---|---|---|---|
| Deddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984 (Adran 16A - digwyddiadau arbennig 1994) | A | A | A | A |
| Adran 21, Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 | | A | B | C |

- A £830 - Adran 21, Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847
- B £240 - Adran 21, Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847
- C £64 - Adran 21, Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847
- A £830 - Adran 16A (Estyniad/Gwneud newidiadau i'r cais - £240)

* Mae'r math o ddigwyddiad yn adlewyrchu'r effaith ar y rhwydwaith priffyrdd a bydd hyn yn cynnwys ystyried y nifer o bobl (gan gynnwys gwylwyr) yr ydych yn disgwyl y bydd yn bresennol yn y digwyddiad. Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol fydd yn penderfynu ym mha gategori y mae'r digwyddiad yn perthyn.

**Noder: Fel yr Awdurdod Priffyrdd, mae Cyngor Sir Ceredigion yn cadw'r hawl i wrthod cau'r ffordd.**